**Pwyllgor Diwylliant CC 16-02(p.2)**

Dyddiad: 23 Hydref 2002

Amser: 9.00am - 12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# ADRODDIAD AR YR YMARFER YMGYNGHORI

# MEWN PERTHYNAS AG

# ARDDANGOS CELFYDDYD

# "GOLYGON Y DYFODOL"

**Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**

## 1. CYFLWYNIAD:

Mae’r adroddiad hwn yn rhoi gorolwg o’r ymatebion a wnaed i ddogfen drafod AOCC ar arddangos celfyddyd ‘Golygon y Dyfodol’.

Cynhyrchwyd y ddogfen hon ym mis Mehefin 2002, a gofynnwyd am ymatebion ym misoedd Gorffennaf ac Awst – estynnwyd y dyddiad mewn ymateb i gais gan yr ymatebwyr. Roedd yn adeiladu ar ran ‘cam un’, yr adroddwyd arni eisoes i Bwyllgor Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae’r ymatebion i gam dau ymarfer ymgynghori AOCC yn mynegi’r ymdeimlad cryf o gyfle y mae’r cyfnod trafod hwn wedi’i greu. Maent hefyd yn cynnal yr ymateb cadarnhaol y mae’r broses yn gyffredinol wedi’i gynhyrchu. Mae’n glir fod yr uchelgais i greu ateb penodol i gwestiwn ‘Oriel Genedlaethol’ gynaliadwy ac addas i Gymru yn un eang.

Yn ogystal ag adlewyrchu’r elfennau adeiladol a chadarnhaol a oedd, yn ddigon calonogol, yn cwmpasu carfan fwyaf sylweddol yr ymatebion, mae’r adroddiad yn adlewyrchu’r beirniadaethau a’r sylwadau cyffredinol a wnaed am feysydd y gellid eu gwella neu eu hailfeddwl yn AOCC.

### 1.1 Nifer ac ystod yr ymatebion:

Dosbarthwyd dros 450 o gopïau o fersiwn print rhwym ‘Golygon y Dyfodol’. Dosbarthwyd tua hanner mewn digwyddiadau a lleoliadau y tu hwnt i Gaerdydd, er mwyn hybu ymwybyddiaeth o’r broses.

Dros gyfnod y broses yn gyffredinol, gwnaed cyfraniadau ffurfiol gan 289 o unigolion a chyrff. Derbyniwyd cyfanswm o 89 o ymatebion ffurfiol yn benodol i’r ddogfen ‘Golygon y Dyfodol’.

Gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

51 (57.5%): ymatebion a dderbyniwyd gan unigolion

25 (28%): ymatebion a dderbyniwyd gan gyrff

13 (14.5%): ymatebion oedd yn cydnabod y broses heb gynnig sylwadau sylweddol

Daeth yr ymatebion a ddadansoddwyd yn yr adroddiad hwn o’r lleoliadau canlynol:

35 (39%) o ardal Caerdydd

33 (37%) o’r tu hwnt i Gaerdydd a’r ardal gyfagos

8 (9% ) o’r tu hwnt i Gymru

13 (14.5%) o leoliadau anhysbys (ee cyflwynwyd drwy e-bost)

Ceir rhestr lawn o enwau yn yr Atodiad.

30 yn unig o’r 230 o gyfranwyr i Cam Un wnaeth ymateb ffurfiol i ‘Golygon y Dyfodol’, er gwaethaf i gysylltiad unigol gael ei wneud â phob un yn ogystal â’r dosbarthiad uchod. Mae cyswllt dilynol â sampl ohonynt yn awgrymu i lawer deimlo eu bod wedi gwneud eu cyfraniad eisoes, a bod y ddogfen i raddau helaeth yn gyfarwydd iddynt. Yn nhermau eu dewis ar gyfer yr opsiynau felly, gellir darllen y rheiny yn ôl o’r cyfraniadau yng ngham un. Yn gyffredinol, maent yn cadarnhau tuedd yr ymatebion i ‘Golygon y Dyfodol’. Cysylltwyd â phob un i sicrhau eu cymeradwyaeth lawn o’r broses hon, a chant eu cynnwys yn y canrannau isod wedi iddynt gael eu coladu yn llawn.

Ymatebodd llawer o bobl drwy gyfranogi mewn gweithgareddau, drwy ysgrifennu, darlledu a dulliau cyfryngol eraill; a thrwy gysylltiad a gohebiaeth y tu allan i’r broses.

Gofynnodd rhai cyfranwyr am gyfrinachedd. Anfonodd eraill gyfraniadau hir yn cwmpasu amrywiaeth o’r pynciau a godwyd. Felly fe fydd fersiwn tabl o’r ymatebion fel ‘trywydd’, ond nid yw’n bosibl bob amser i grynhoi ymatebion pwynt wrth bwynt. Bydd yr ymatebion llawn a’r trawsgrifiadau llawn o holl ymatebion cam un yn cael eu cadw i bwrpas cyfeirio a gellir gwneud cais i’w gweld.

Ni thadogir dyfyniadau, a ni thynnir rhagor na dau ddyfyniad o unrhyw un ymateb.

**2.0 THEMÂU CYFFREDINOL:**

Fel cymorth cof, penawdau cryno y dewisiadau a gynigiwyd yn y ddogfen oedd:

*Cynnig un* : dynodi partneriaid arweiniol rhanbarthol ledled Cymru

*Cynnig dau* : uchafu mynediad ac adeiladu ar safon yr ymchwil

*Cynnig tri*: mwy o bwyslais ar a hyrwyddo rôl yr ‘Oriel Genedlaethol’

*Cynnig pedwar* : datblygu cyflwyno thematig

*Cynnig pump*: creu Oriel Genedlaethol ar wahân

Ar gyfer cynnig pump roedd tri dewis i’w hystyried fel a ganlyn:-

5.1 y tu allan i Gaerdydd

5.2 o fewn i Gaerdydd mewn adeilad ar wahân

5.3 fel ‘adain ogleddol’ benodol yn AOG

Roedd rhai themâu yn rhedeg drwy ymatebion cam dau, heb fod ynghlwm wrth unrhyw gynnig unigol. Roedd y rhain yn adleisio y rheiny a wnaed yng ngham un:

Yn gyntaf, roedd croeso eang i’r ffaith fod yr ymgynghoriad yn digwydd o gwbl, a bod AOCC yn ystyried y mater o ddifrif.

> *"Hoffwn eich llongyfarch ar faint yr ymgynghoriad, ar yr hyn sydd yn siwr o fod yn un o’r penderfyniadau pwysicaf yn hanes AOCC."*
>
> *"Llongyfarchiadau am archwilio ystod mor eang o ddewisiadau ar gyfer strategaeth i ddatblygu mynediad i’r casgliadau celfyddyd cenedlaethol yng Nghymru mewn ffordd mor agored."*
>
> *"Mae’r papur ymgynghori yn rhagorol. Mae’n crynhoi yn abl iawn y safbwyntiau eang a ddaeth i’r amlwg o Gam 1 ac yn eu haddasu yn glir iawn i’r amrywiol ddewisiadau ar gyfer y dyfodol gyda’u rhinweddau a’u diffygion unigol.’*
>
> *"Mae’r papur ymgynghori yn rhan o ailwerthusiad amserol iawn o egwyddorion AOCC mewn perthynas â’i rôl bresennol ac yn y dyfodol. Felly derbyniwch fy*

*llongyfarchiadau a'm diolch am fynd i'r afael â set o faterion cymhleth."*

Yn ail, cytunai'r ymatebwyr yn eang fod angen cydnabod fod problem hanesyddol a pharhaus gyda lefel yr adnoddau sy'n tanategu'r ddarpariaeth ar gyfer y celfyddydau gweledol yn AOCC ac yng Nghymru.

> *"… ond mae angen yr uchod i gyd a dylid eu gweithredu ar gyfer dyfodol hir dymor celfyddyd yng Nghymru a dylai'r Cynulliad eu cefnogi yn iawn gydag arian go iawn os ydyn nhw i wneud yn iawn am benderfyniadau erchyll o anghywir y gorffennol."*

> *"Staffio Mae'r lefelau presennol yn ddifrifol o annigonol ac mae angen eu cynyddu yn sylweddol fel y mae cymhariaeth â sefydliadau cenedlaethol eraill yn y DU yn ei ddangos yn glir."*

> *"Mae'n glir iawn na all y rhwydwaith arfaethedig hwn o bartneriaethau weithredu ar unrhyw adeg oni bai fod (i) ei "bwerdy" canolog, Adran Gelfyddyd AOCC yn cael ei ariannu yn ddigonol a bod (ii) Canolfan Gasgliadau AOCC (Nantgarw) yn cael ei datblygu ymhellach i gynnal y gwasanaeth benthyca estynedig hwn."*

Un sylw oedd y dylai'r cynigion ddod yn rhan o raglen waith AOCC beth bynnag:

> *"ymddengys fod i'r cynigion i gyd rinwedd ac mewn gwirionedd, gallent fod yn bolisïau neu yn strategaethau oedd eisoes yn rhan o genadwri yr amgueddfa".*

Roedd y farn hon yn cysylltu â'r pwynt cyffredinol cyfliniol am lefelau isel o adnoddau.

**2.1 Llinellau amser**

> Thema fawr a ddaeth i'r amlwg yn gyson oedd, wedi dynodi ac ymofyn barn ar y mater, ei fod yn hanfodol fod AOCC nawr yn dangos ei fod yn awyddus i ymateb yn gadarnhaol ac yn adeiladol. Sylwodd llawer, er enghraifft, fod y llinell amser a fapiwyd yn 5.3 (dechrau cynllunio 2004/5; codi arian yn dechrau yn 2006, yn dilyn agoriad NWMS, y mae AOCC wedi gorfod codi dros £4m o arian preifat iddi, a … i gyd-fynd â chanmlwyddiant AOCC yn 2007; agor yn 2011) os rhywbeth yn rhy geidwadol.

> *"Mae cyfnodau cynnar yr amserlen arfaethedig rhwng 2002/2005 yn ymddangos yn rhy hir. Gyda thechnegau cynllunio addas gellid tynnu blwyddyn oddi ar yr amserlen honno, a symud yr agoriad ymlaen o leiaf flwyddyn. Hefyd, dylid dechrau codi arian flwyddyn ynghynt."*

*"Da chi peidiwch ag aros tan 2006, mae gormod o flynyddoedd coll i'w hadennill."*

*"Yn olaf, yn ein barn ni mae eich amserlen arfaethedig yn rhy hir, a chan gofio fod Stadiwm y Mileniwm wedi'i chodi o fewn 4 blynedd i'r cysyniad gwreiddiol, dylai'r broses penderfyniad cynnar hyd at gwblhau osod targed o 2007, fyddai'n cyd-fynd â chanmlwyddiant agoriad yr Oriel wreiddiol."*

*"Mae 9 mlynedd yn amser hir i aros am weithrediad Opsiwn 5. A all y cyhoedd a'r cyfryngau aros mor hir â hynny?"*

Fodd bynnag rhaid i AOCC ystyried oblygiadau noddi prosiect mawr arall yn y cyfnod hwn, gan fod ganddo dri phrosiect arall yn cael eu datblygu ar hyn o bryd yn ogystal â'r gobeithion am estyn y Ganolfan Gasgliadau.

**2.2 Beirniadaethau penodol**

Yn ddiddorol, dewisodd rhai pobl ganmol neu feirniadu materion cyffredinol yn ymwneud ag agwedd gyffredinol AOCC tuag at y celfyddydau cain a chymhwysol. Ar y cyfan roedd y pwyntiau negyddol yn benodol iawn, ac yn ddefnyddiol i'w nodi ar gyfer materion gweithredol, ee artistiaid penodol yn cael eu harddangos ai peidio.

Fodd bynnag, gwnaeth rhai o'r artistiaid a ymatebodd yn benodol sylwadau gymharol bersonol am arddull ac agwedd AOCC. Yn ddiddorol, aeth un ymateb ati i gysylltu sefydliadoli corff mawr â'r angen i ddatblygiadau newydd fod "o dan reolaeth artistiaid".

Mae'n bwysig nodi fod hyn yn adleisio rhai o'r pwyntiau a wnaed yn 'Golygon y Dyfodol' am briodolrwydd gwerthoedd diwylliannol corff sydd â chasglu yn brif bwrpas iddo yn gweithio yng nghyd-destun penodol celfyddyd fodern a chyfoes. Ymhlyg yn hyn hefyd mae cefnogaeth i'r gwaith y mae AOCC wedi bod yn ei wneud yn cynnal mentrau cyfliniol llai o faint ac sydd ar wahân, i hyrwyddo celfyddydau cyfoes. Archwilir y thema hon isod.

Yn y cyfamser, doedd hi ddim yn syndod, ond yn beth i'w groesawu fod llawer o gefnogwyr hirdymor a budd-ddeiliaid AOCC wedi cymryd y cyfle i gymeradwyo AOCC am ei waith, yn arbennig dros y pump i ddeng mlynedd diwethaf.

## 3.0 YMATEBION I GYNIGION UNIGOL YN Y DDOGFEN YMGYNGHORI:

Y themâu a ddaeth i’r amlwg yn yr ymatebion unigol i bob adran oedd:

### 3.1 Cynnig 1 : rhwydwaith o safleoedd partner

Derbyniodd hwn groeso eang, a pheth cyfeiriad at fod ‘y blaenaf ymysg y cyfartal’ fel blaenoriaeth ar draws y pum cynnig. Yn y cyfamser, cydnabyddai llawer ei fod yn amlwg nad tasg AOCC ar ei ben ei hun oedd hyn. Roedd ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) yn cynnig cyflwyniad ar y cyd i’r Cynulliad Cenedlaethol yn ymdrin â’r cyd-fuddiannau i AOCC a CCC o weithredu, os nad cynnwys llawn Adroddiad Pratley, o leiaf ei brif elfennau mewn egwyddor.

Soniodd rhai cyfranwyr oedd yn fudd-ddeiliaid am y cynllun diweddar i ddatblygu hybu gweithio partneriaeth fel platfform pwysig.

*Mae Rhannu’r Trysorau yn gynllun hanfodol i alluogi i waith yr Oriel Genedlaethol ddyfod yn wirioneddol ‘genedlaethol’. Mae’n anodd cyfiawnhau rhagor o fuddsoddiad mewn casglu, astudio a chyflwyno celfyddyd yn AOCC oni bai fod y buddiannau yn cael eu rhannu ag ardaloedd o Gymru nad oes ganddynt fynediad rhwydd i Gaerdydd.*

Nododd un neu ddau o gyfranwyr o’r maes proffesiynol eu gallu i ddod yn gyrff partner – yn benodol Oriel Mostyn yn Llandudno. Soniodd rhai am gyfuniadau o safleoedd sefydledig wedi’u hategu gan rai newydd lle nad oeddent yn bodoli ar y ‘map’ cyfredol. Roedd y Cyngor Amgueddfeydd yng Nghymru (CAC) yn pwysleisio yn y mater hwn y dylai AOCC adeiladu ar ei isadeiledd presennol, tra bod yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn nodedig ymysg nifer o ymatebion oedd yn dadlau na ddylem ddarnio’r casgliad drwy wasgariad penodol na chyffredinol, gan ffafrio’r dull arddangosfeydd cymysg.

Fodd bynnag, mae’n bwysig i bwysleisio unwaith eto y cysylltiadau a wnaed rhwng cynnig 1 a chynnig 5. Mynegodd llawer o ‘gefnogwyr’ cynnig un gefnogaeth i un neu ddwy o’r elfennau allweddol yng nghynnig 5, gan weld rhwydwaith bach o bartneriaid yn ategu buddsoddiad yn y brif ddinas.

*"Rwy’n ysgrifennu i fynegi cefnogaeth i’r cynnig i gynnal Oriel Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd fel canolfan ragoriaeth ond gydag ymrwymiad i greu rhwydwaith o orielau rhanbarthol drwy Gymru … teimlaf ei fod yn hanfodol i gynnal sail gref yn y brif ddinas sydd yn ffenestr genedlaethol a rhyngwladol ac*

*sy'n gallu gweithredu fel cydlynydd ar gyfer teithiau rhanbarthol."*

## 3.2 CYNIGION 2-4 : YMCHWIL; HYRWYDDO; CYFLWYNO ARDDANGOSFEYDD

### 3.2.1 Ymchwil:

Nododd cyfranwyr fod ymchwil, a'r cyfrifoldeb ehangach i rannu gwybodaeth, yn derbyn rhy ychydig o adnoddau a gwerth ar hyn o bryd:

*"Mae hyn (fel casgliadau wrth gefn) yn aml yn cael ei gamddeall gan gyrff ariannu. Rhaid iddynt ddeall yn llawn nad rhyw foethusrwydd ffiniol, esoterig i rai unigolion maldodus ydyw ond ei fod yn ganolog i rôl yr amgueddfa/Oriel. Os yw i fod yn bopeth arall y dymunir iddo fod, rhaid i AOCC aros a datblygu fel sefydliad a gydnabyddir yn rhyngwladol am ddysg ac ysgolheictod."*

Cynigiodd cydweithwyr fel Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chydweithwyr o Addysg Uwch gynigion gwerthfawr am ffyrdd y gallai AOCC weithio â hwy. Roedd llawer o gyfraniadau gwerthfawr, yn arbennig rhai oedd yn awyddus i gyflawni dyheadau dysgu a mynediad.

### 3.2.2 Oriel Genedlaethol ar-lein:

Cafwyd cymeradwyaeth eang i'r cynnig i ddatblygu gwell mynediad yn seiliedig ar TG.

*"Hoffem gefnogi creu Oriel Genedlaethol ar-lein fyddai yn arbennig o berthnasol i raglenni addysg ffurfiol a chymunedol."*

*"Mae'n ymddangos fod "Oriel" ddigidol ar-lein (nad oes angen iddi fod yn gynhwysfawr ar hyn o bryd) fel estyniad i farchnata ac ymchwil AOCC yn anghenraid bob dydd; byddai myfyrwyr, ymwelwyr, twristiaid ac ymchwilwyr fel ei gilydd yn defnyddio adnodd o'r fath a byddai'n cynnig mynediad eang ledled Cymru ac yn rhyngwladol."*

*"Mae datblygiad buan o adnoddau TG priodol yn elfen hanfodol o strwythur isadeiledd arddangos, cyfeirio ac ymchwil y dyfodol. Yn benodol, mae angen mynediad buan i'r catalog o eitemau sydd ar gael yng nghasgliadau AOCC ar sefydliadau allanol sy'n cynllunio arddangosfeydd."*

Roedd llawer o gyfranwyr yn cydbwyso eu cefnogaeth i 'rith-orielau' â sylwadau am werth cyson a chynyddol bwysig y 'peth go iawn'.

### 3.2.3 Arddangosfeydd thematig

Roedd amrediad o safbwyntiau ynghylch cyflwyno arddangosfeydd. Ychydig iawn o ddiddordeb a fynegwyd mewn ‘Oriel o gelfyddyd Gymreig’. Roedd llawer mwy o ddiddordeb mewn cylchu arddangosfeydd a thorri gosodiadau didactig sefydlog.

*Nid yw arddangosfa draddodiadol o gelfyddyd Cymru yn bosibilrwydd, bydd rhaid i chi ddatblygu traddodiad newydd.*

Awgrymwyd y gallai datblygu cyflwyniadau thematig ddod â rhagor o weithiau allan o’r stôr, i alluogi benthyca o fannau eraill yng Nghymru. Pwysleisiodd rhai cyfranwyr yr angen i gael gwell dehongliad o ddatblygiadau a phwysigrwydd mudiadau celfyddyd y tu allan ac o fewn i Gymru. Roedd cefnogaeth gyffredinol i sicrhau fod yr agwedd at ddangos, arddangosfeydd a dehongli yn benodol i Gymru a bod nifer o gyfleoedd yn cael eu creu i atgyfnerthu’r agwedd honno. Cydnabuwyd fod cynnydd mawr wedi’i wneud yn ddiweddar yn hyn o beth.

Soniodd rhai ymatebwyr am y cwestiwn o bwysigrwydd sylfaenol canolfan gasgliadau addas i hwn ac i feysydd gwaith eraill:

*"Mae angen rhaglen o ddatblygiad cynaliadwy ar yr adnodd yn Nantgarw er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau gorau yn cael eu darparu’n gyson. Rhaid i arianwyr a defnyddwyr sylweddoli pwysigrwydd casgliadau wrth gefn/astudio i wasanaeth amgueddfa/Oriel effeithiol a’i rôl hanfodol wrth weithredu rhaglenni partneriaeth."*

*"Rwy’n cytuno mai Canolfan Gasgliadau ddigonol yw’r sail i’r holl ddatblygiadau eraill."*

Roedd amrediad o safbwyntiau yn yr ymatebion i gynnig 4 a chynnig 5 rhwng y rheiny oedd yn teimlo fod natur amlddisgyblaethol AOCC yn fantais glir a’r rhai oedd yn meddwl fel arall. Fodd bynnag, roedd yn amlwg, yn eglur a thrwy awgrym, fod proffil a hunaniaeth bresennol casgliadau celfyddyd AOCC yn cael eu drysu â chanfyddiad cyffredinol amgueddfa amlddisgyblaethol – sy’n awgrymu y bydd gwahanu’r ddwy hunaniaeth yn hanfodol i lwyddiant yr adain neu’r adeilad newydd.

Soniodd cydweithwyr yn y diwydiant twristiaeth yn gyffredinol am bwysigrwydd gwaith hyrwyddo twristiaeth ddiwylliannol, ond gan bwysleisio y byddai buddiannau yn deillio o ffocws ‘prif ddinas’.

*"Ar hyn o bryd, dim ond Caerdydd yng Nghymru sydd â’r presenoldeb a’r raddfa i ddenu niferoedd mawr o ymwelwyr rhyngwladol ac ymwelwyr cenedlaethol i atyniadau diwylliannol; byddai oriel newydd yng Nghaerdydd yn defnyddio’r sail ymwelwyr hwn ac adeiladu arno; byddai oriel mewn man arall yn gorfod creu marchnad ddiwylliannol o’r cychwyn a (mwy neu lai) ar ei ben ei hun. Byddai oriel newydd hefyd yn ychwanegu at y màs critigol diwylliannol fyddai’n annog rhagor o ymwelwyr i ddod i Gymru."*

**3.3 Cynnig 5 – Oriel Genedlaethol newydd**

y Dewisiadau

Mae’r canrannau yn amrwd. Ni roddodd llawer o’r ymatebwyr ‘bleidlais’ syml i un dewis neu un arall, a mynegodd rai farn oedd yn amodol neu yn cysylltu rhwng cynigion â’i gilydd. Fodd bynnag, Oriel Genedlaethol ar ei phen ei hun oedd dewis 61% o’r holl ymatebwyr, gan gynnwys y rheiny na roddodd farn ar leoliad penodol. Opsiwn 5.3, sef estyniad i’r adeilad presennol yn AOG, oedd dewis 46%, ac opsiwn 5.2, sef adeilad ar wahân o fewn i Gaerdydd oedd dewis 10% o’r ymatebwyr, gyda’r gweddill heb nodi’r naill na’r llall yn glir. Yn wir, er fod cynigion unigol ar gyfer y ddau opsiwn arall o fewn i gynnig 5, yn rhannol oherwydd cynaliadwyaeth, ac yn rhannol er mwyn cynnal cysylltiadau â disgyblaethau eraill, roedd llawer o’r cyfranwyr yn gweld yn glir mai opsiwn 5.3 oedd yr unig ddewis.

*"Mae’n annirnadwy y gallai Oriel Genedlaethol fodoli yn unrhyw le arall ar wahân i Gaerdydd ac ar ei safle presennol."*

*"Mae gosod casgliad cenedlaethol yn unrhyw le ar wahân i’r brif ddinas yn ei ddarostwng gan greu diraddiad daearyddol. Mae hefyd yn gwanhau effaith yr ymrwymiad newydd hwn i gyflwyno mynegiant celfyddydol gweledol y genedl. Byddai ehangu AOCC yn y modd hwn yn creu craidd a chanolfan genedlaethol ar gyfer casglu, cadwraeth, dehongli a chyflwyno."*

Dewisodd rhai ddweud mai’r flaenoriaeth oedd presenoldeb yn y brif ddinas, gan ffafrio creu adain ogleddol i’r adeilad presennol os nad oedd adeiladu Oriel Genedlaethol newydd yng Nghaerdydd yn gynaliadwy ar sail costau refeniw.

*"Mae Oriel Genedlaethol yng Nghaerdydd yn hanfodol os yw Caerdydd i gael ei*

*hystyried yn wir brif ddinas, yn arbennig i ddinas sy'n anelu at fod yn brif ddinas diwylliant yn 2008."*

*"Er gwaethaf agenda wleidyddol datganoli, y brif ddinas yw'r unig ddewis ymarferol. Boed am resymau mynediad, twristiaeth, chwaraeon neu fusnes, dyma'r unig leoliad posibl ar gyfer y flwyddyn gyfan. Beth fyddai ymwelwyr yn ei feddwl am genedl nad oes ganddi ddigon o feddwl o'i phrif ddinas fel ei bod yn lleoli ei Horiel Genedlaethol y tu allan i ganol ei dinas bwysicaf?"*

*"Mae'n hanfodol fod prif ddinas cenedl yn cynnwys ei hatyniadau diwylliannol a'i chasgliadau celfyddyd pwysicaf."*

Awgrymiadau eraill

O dan Gynnig 5, 5 ymateb yn unig wnaeth gais cyffredinol am oriel ar ei phen ei hun y tu allan i Gaerdydd. O'r rhain, gwnaeth tri gynigion penodol am y syniad o oriel ar wahân yn eu hardal hwy. Y rhain oedd: Cyngor Wrecsam a 'NEWI' yn cynnig campws 'NEWI'; Cyngor Castell-Nedd Port Talbot yn cynnig lleoliad glan môr yn Aberafon; Cyngor Sir y Fflint ar gyfer Theatr Clwyd. Roedd cynnig un AC yn awgrymu rhoi ystyriaeth i Fae Colwyn. Cynigiwyd un lleoliad arall i ategu'r brif ddinas.

Mae'n hollbwysig nodi fod trafodaethau ar waith eisoes â Wrecsam i gryfhau'r berthynas ag AOCC a ddechreuwyd gan y cynllun partneriaeth 'Cyfoeth Cymru Gyfan – rhannu'r trysorau.' Gwnaed cynigion eraill y tu allan i'r broses ffurfiol, ac fe'u trafodir isod.

Heb wneud cynnig penodol, cynghorodd LlGC y dylid rhoi "ystyriaeth ofalus i ogledd-ddwyrain Cymru".

Y brif ddinas

Pwysleisiodd cynigion eraill, tra'u bod yn ffafrio dewis y brif ddinas, mai ei lleoli mewn adeilad ar wahân fyddai'n gwneud y datganiad cryfaf o gychwyn newydd.

Mae'n werth nodi fod Oriel Genedlaethol newydd mewn adeilad newydd wedi derbyn cefnogaeth gan 3 (7.5%) chyfrannwr o'r tu hwnt i Gaerdydd, tra bod cael Oriel Genedlaethol mewn Adain Ogleddol newydd i'r Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol wedi derbyn cefnogaeth 62% o'r ymatebwyr o'r tu hwnt i Gaerdydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r gymhareb safbwyntiau a fynegwyd gan gyfranwyr cam

un.

Yn aml cysylltwyd y cynigion ar gyfer datblygiad yn y brif ddinas i gynnig 1, fel sydd wedi'i nodi eisoes. Cysylltodd llawer o gyfranwyr eu ffafriaeth i opsiwn 3 ag amod y byddai cynnig 1, hynny yw orielau partneriaeth o gwmpas Cymru, yn cael eu datblygu.

*"Rwyf o blaid cael yr Oriel Genedlaethol yng Nghaerdydd a rhwydwaith o orielau rhanbarthol yn dod â'u casgliadau, yn arbennig y 'gwaith cyfoes', i gynulleidfa ehangach."*

*"O'r 3 dewis, estyn adeilad presennol AOG yw'r un sy'n apelio fwyaf ond gan gryfhau lleoliadau Partneriaeth Cynnig 1."*

Yn yr un modd, roedd rhai ymatebion o Gaerdydd yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng corff yn seiliedig ar gasgliadau ac oriel 'hyblyg' gyfoes, gan nodi'r angen i gael y ddau beth yn y brif ddinas neu yn yr ardal gyfagos.

## Chwaer gyrff

Cadarnhaodd CCC werth cynnig 1. Yn ogystal cefnogodd Oriel Genedlaethol newydd, ond gyda nifer o sylwadau diddorol a gwerthfawr. Y cyntaf oedd fod lleoliad yr Oriel newydd yn eilbeth i'r ewyllys i'w gweld yn digwydd. Yr ail oedd y dylem gymryd mater 'gallu trefniannol priodol' ar gyfer celfyddyd fodern a chyfoes yn ddifrifol, fel y soniwyd yn 'Golygon y Dyfodol' ei hun. Yn drydydd, fel y nodwyd uchod, galwodd CCC ar i AOCC wneud cais ar y cyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch cynigion 1 a 5.

Yn yr un modd, nododd y Llyfrgell Genedlaethol yn glir y byddai'n ei ystyried ei hun yn ddarpar fudd-ddeiliad yn rhannu deunydd ar gyfer dangos ac arddangosfeydd, er fod ei chyfrifoldeb casglu yn fwy cyfyng ac wedi'i diffinio'n wahanol. Cynigiodd y dylid ystyried ei chasgliadau fel darpar adnodd y gellid tynnu arddangosfeydd y dyfodol ohonynt, fel y gwneir ar hyn o bryd.

## Diwylliant a therminoleg trefniannol

Roedd llawer o sylwadau oedd yn awgrymu pe byddai AOCC yn rhedeg adnodd ar wahân, neu pe bai un yn unig o'r ddau hyn i fod, y dylai AOCC ddelio â'r angen i adain ogleddol ddyfod yn ddiwylliant trefniannol ar wahân. Roedd cyfeiriadau mynych at yr angen i ystyried arddull ac agwedd trefniannol penodol i unrhyw un

o'r opsiynau yng Nghynnig 5, beth bynnag bo'r lleoliad.

Pwysleisiodd llawer o gyfranwyr fod rhaid i bob opsiwn ystyried a oedd yr hyn a gynigid yn oriel hanesyddol wedi'i seilio ar gasgliadau neu yn adnodd modern a chyfoes. Heb gael eu gofyn, gwnaeth rhai cyfranwyr y pwynt pe bai buddsoddiad paralel mewn adnodd cyfoes/modern yn y brif ddinas neu yn y dalgylch cyfagos, y byddai'n cryfhau'r achos i 'Oriel Genedlaethol' benodol ar wahân fod yn hanesyddol ac wedi'i seilio ar gasgliadau.

Yn eu tro, teimlai rhai fod dadl dros oriel wedi'i seilio ar gasgliadau yn llai cryf na'r un dros ddarpariaeth well ar gyfer arddangos celfyddyd fodern a chyfoes yn hyblyg. Roedd y sylw diwethaf yn nodwedd benodol o ymatebion unigol yn hytrach na gan gyrff. Mewn cyferbyniad, lle'r oedd awydd cryf am ddull o weithredu wedi'i seilio ar gasgliadau, roedd cyd-gydnabyddiaeth na fyddai hyn yn delio â mater adnodd cyfoes. Cysylltodd rhai y posibiliadau yn y fan hyn â'r cwestiwn o sut i wneud y gwahaniaeth hwn:

*"[o gael gofod ar wahân byddai cydrannau gwreiddiol] Parc Cathays yn canolbwyntio ar arddangos celfyddyd fwy hanesyddol (yn hytrach na cheisio a methu cwmpasu celfyddyd gyfoes fel y gwneir ar hyn o bryd) ac felly gallai fanteisio ar natur glasurol yr adeilad ac arbenigedd hanesyddol y staff.*

Mewn cyferbyniad, mynegwyd y farn fod manteision i'r posibiliadau o ffurfio cysylltiadau agos â'r hanesyddol a'r modern a'r cyfoes, a'r celfyddydau a hanes a gwyddorau.

## 4.0 YMATEBION Y TU ALLAN I'R BROSES:

Roedd amrediad eang o ymatebion i'r ymgynghoriad nad oedd yn trosi yn ymatebion ffurfiol ym mhroses 'Golygon y Dyfodol'. Mae'r rhain yn amrywio o'r cynnig anffurfiol o safle yng nghymoedd y Rhondda gan AS yr etholaeth, i sylwadau yn y cyfryngau, i sylwadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gweithgareddau a gynlluniwyd i drafod y broses, gan gynnwys cyfarfod cyhoeddus mawr a drefnwyd gan yr IWA yng ngogledd Cymru.

Hyd yn oed lle nad oedd y canlyniad yn gyflwyniad ffurfiol i gam dau, fel yn achos y cyfraniadau i gam un, dylai ymatebion o'r fath gael eu nodi yn ofalus a'u cynnwys yn y cynllunio ar gyfer y camau nesaf. Yn wir, nododd nifer o sylwedyddion y broses mai'r rheswm am natur adeiladol y cyflwyniadau i 'Golygon y Dyfodol' oedd fod y cyfarfodydd agored, y trafodaethau, sylw cyfryngol a thrafodaeth â grwpiau yn y gymuned, a grëwyd oll gan a thrwy'r broses ymgynghori, wedi galluogi sylwadau i gael eu sianelu, a gwelwyd fod AOCC wedi bod

yn gwrando.

## 5.0 CASGLIADAU:

Atgyfnerthwyd y themâu a'r cwestiynau a ddiffiniwyd yng ngham un gan dderbyniad ehangach cam dau. Mae'r ddau gam ynghyd yn creu darn sylweddol o waith sydd nawr wedi cynhyrchu angen am ymateb clir a sylweddol.

Mae cefnogaeth gref i ddatblygu'r rhaglen Bartneriaeth bresennol ac am fentrau eraill fydd yn dod â chasgliadau AOCC i gynulleidfa eang. Mae cefnogaeth debyg i ddatblygu "Oriel Genedlaethol" ac felly mae'n bwysig y datblygir strategaeth arfaethedig fydd yn cwrdd â'r holl opsiynau hyn.

Cynigir nawr y bydd dogfen strategaeth yn cael ei chynhyrchu ar batrwm y ddogfen 'Strategaeth Ddiwydiannol' a arweiniodd at gyfnerthiad yn yr agwedd at yr Amgueddfa Lechi Cymru, y Pwll Mawr, Drefach a NMWS.

Fodd bynnag, mae angen ystyriaeth ofalus ar y strategaeth hon, yn fewnol a gan gyfeirio'n agos at fuddiannau budd-ddeiliaid.

Bydd y ddogfen strategaeth yn cwmpasu:

1. yr elfennau sydd wedi'u costio yn yr ymatebion, y gellir delio â hwy o fewn i broses cynllunio corfforaethol AOCC ee, buddsoddiad mewn TG, dehongli, gwaith Partneriaeth ac ati heb ymyrraeth cyfalaf fawr

2. dewisiadau datblygu cyfalaf a refeniw, gyda chostau amlinellol, o'r eitemau na ellir delio â hwy o fewn i'r adnoddau cyfredol, yn arbennig oriel ar ei phen ei hun, yn dilyn y gwerthusiad opsiynau canlynol:

- creu rhagor o bartneriaid arweiniol rhanbarthol er mwyn arddangos celfyddydau gweledol o'r casgliadau cenedlaethol, wedi'u profi ochr yn ochr â'r cynlluniau peilot sy'n bodoli eisoes ar gyfer arddangos aml-ddisgyblaethol

- a yw'r datblygiad yn canolbwyntio ar gelfyddyd hanesyddol, gan gynnwys y modern a'r cyfoes; ynteu a yw'n cychwyn yn c1900 ac yn gadael y deunydd cynharach yn safle Parc Cathays, gan ystyried yn fanwl yr oblygiadau technegol a logistaidd yn ogystal â 'brandio' canlyniad y naill neu'r llall

- yr oblygiadau ar gyfer safle presennol Parc Cathays

1. yr agwedd drefniannol gorfforaethol tuag at ddelio â'r opsiynau a ffafrir a rôl y budd-ddeiliaid sy'n cydweithio, yn benodol CCC a Chynulliad Cenedlaethol Cymru

2. y cysylltiad â datblygu'r Ganolfan Gasgliadau yn Nantgarw a datblygu amserlen realistig sy'n cydnabod y prosiectau datblygu sydd eisoes ar y gweill er mwyn sicrhau ei bod yn bosibl i weithredu unrhyw ddatblygiadau Cyfalaf newydd heb effeithio yn ormodol ar waith sydd eisoes yn digwydd yn AOCC.

Michael Tooby

Cyfarwyddwr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol

15 Hydref 2002

ATODIAD

Golygon y Dyfodol : Ymatebwyr Ffurfiol Sylweddol

| Enw | Corff | Enw | Corff |
|---|---|---|---|
| Nigel Williams | Archif Celfyddyd Cymru | Alan Watkin | CBS Wrecsam |
| Laura Ketteridge | - | Tracy Tinker | Y Grwp Cymreig (Ysgrifennydd) |
| Michael Edmonds | Cyd-sefydlydd Grwp 56 Cymru | David George | Cyfaill Glynn Vivian |
| Laura Hilton | - | Yr Athro Jonathan Osmond | Prifysgol Caerdydd |
| Carolyn Taylor | - | Richard Powell | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yr Athro Dylan Jones | - | Sian Tomos | CCC (Cyfarwyddwr G Cymru) |
| H E Roese | Cyfeillion AOCC | Gwenllian Ashley | Amgueddfa Ceredigion |
| Kim Evans | ACE | Gordon Dalton | Caerdydd 2008 |
| Arthur Giardelli | - | Ceri Thomas | Prifysgol Morgannwg |
| Evan Jones | - | Robert Harding | Y Grwp Cymreig (Trysorydd) |
| Pauline Salmon | - | Dr Ruth Williams | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| J Lloyd Jones | - | Martyn Barlow | Oriel Mostyn |
| Nicholas Bourne AC | Ceidwadwyr Cymreig | Dr Peter Wakelin | - |
| Chris Morris | BBC Cymru | Ceri Sherlock | I E Ideas |
| Clare Mason | Twristiaeth Strategol Cyngor Sir Caerdydd | Robert Hughes | - |
| David Woodford | - | Anthony Jones | Sefydliad Celfyddyd Chicago<br><br>(Llywydd) |
| Lionel Tythicott | - | Ann-Marie Petty | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arglwydd Carlile o Berriew QC | - | Roy Slade | Amgueddfa Gelfyddyd Cranbrook Florida |
| H M Forshaw | Cyfeillion AOCC | Martin Tinney | Oriel Martin Tinney |
| John Marjoram | CAC | Ann Jones | - |
| Martyn Jones | - | Adrian Barsby | Cymdeithas Dwristiaeth Sir y Fflint |
| Glyn Jones | - | Harry Holland<br><br>Philip Nichol<br><br>Steve Young | - |
| Terry Setch | - | Hugh Jones | Cyfeillion AOCC |
| **Enw** | **Corff** | **Enw** | **Corff** |
| Mungo Campbell | Oriel Gelfyddyd Hunterian Prifysgol Glasgow | Iwan Bala | - |
| Margaret Elmes | Noddwr & Chyfeillion AOCC | Andrew Green | Llyfrgell Genedlaethol |
| Michael Nixon | MN Associates | Ruth Garnault | Cyfarwyddwr WMC<br><br>Arts Explorer |
| Prof Tony Curtis | - | Sheila Weaver | Cyfeillion AOCC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hilary Minto | - | Peter Tyndall | Prif Weithredwr CCC |
| Christopher Gridley | - | Geoffrey Olsen | Prifysgol Florida International |
| Prof Dai Smith | Prifysgol Morgannwg | David Alston | - |
| Elaine Cabuts | - | Nigel Adams | BTC |
| Howard J Evans | Ymddiriedolaeth Derek Williams | Yr Athro BM Hibbard | CASW (Is-Gadeirydd) |
| Anthony Shapland | Gofod Celfyddyd Gyfoes<br><br>(G39) | Hefin Looker | Panel Celfyddyd Cymdeithas AGC |
| Donald Moore | - | Roger Thomas | Prif Weithredwr CCW |
| Tecwyn Jones | - | Gareth Davies | CASW |
| Peter Davies | - | Alan Pugh AC | - |
| Dr Susan Davies | Is Lywydd Etholedig | Ozi Rhys Osmond | - |
| Janek Alexander | Canolfan Chapter | R A Ward | CBS Castell-Nedd Port Talbot |
| Scott Reid | Gwasanaethau Amgueddfa Merthyr Tudful Parc<br><br>Cyfartha | Isobel Straw | BafM |